# Cofnodion Drafft Iechyd Cyhoeddus Cymru
# Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd
# Cyfarfod Cyhoeddus, 17 Mawrth 2026 13:30
# Cynhaliwyd yn 6.2 CQ2 a thrwy Microsoft Teams

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol:** | | |
| Sian Griffiths | (SG) | Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd y Cyhoedd) |
| Tamsin Ramasut | (TR) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Cydraddoldeb ac Amrywiaeth) |
| Catherine Purcell | (CP) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Prifysgol) |
| **Yn Bresennol:** | | |
| Alisha Davies | (AD) | Pennaeth Ymchwil a Datblygu |
| Claire Birchall | (CB) | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Ansawdd a Llywodraethu Integredig |
| Danielle Gething | (DG) | Pennaeth Rheoli Risg (ar gyfer eitem 2.6.1 a 2.6.2) |
| Elen de Lacy | (EDL) | Arweinydd Partneriaeth Strategol Ymchwil a Gwerthuso (ar gyfer eitem 2.1) |
| Iain Bell | (IB) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwybodaeth ac Ymchwil Iechyd y Cyhoedd |
| Jenna Goldsworthy | (JG) | Arweinydd Portffolio (Cyfarwyddiaeth Ymchwil, Data a Digidol) (ar gyfer eitem 2.4) |
| Jim McManus | (JM) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Iechyd a Llesiant |
| Liz Blayney | (LB) | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Dirprwy Bennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Louisa Nolan | (LN) | Pennaeth Gwyddor Data (ar gyfer eitem 2.5) |
| Meng Khaw | (MK) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol. |
| Paul Veysey | (PV) | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Stuart Silcox | (SS) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig |
| Sumina Azam | (SA) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Polisi ac Iechyd Rhyngwladol |
| Tom Fowler | (TF) | Dirprwy Gyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio |
| **Ymddiheuriadau** | | |
| Pippa Britton | (PB) | Cadeirydd |
| Tracey Cooper | (TC) | Prif Weithredwr |

UNCONFIRMED

| | | |
|---|---|---|
| Clare Jenkins | (CJ) | Is-Gadeirydd Bwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chyfarwyddwr Anweithredol |
| **Ysgrifenyddiaeth** | | |
| Ffion Lloyd | (FL) | Swyddog Cymorth y Bwrdd |
| *Dechreuodd y cyfarfod am 13:30* | | |

**KRIC 1/2026.03.17 Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau**

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawodd bawb oedd yn bresennol.

**Nododd** y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn sicrhau cywirdeb y cofnodion ac y byddai'r recordiad yn cael ei ddileu ar ôl cytuno ar y cofnodion yn y cyfarfod canlynol ar 16 Mehefin 2026.

**KRIC 1.1/2026.03.17 Datganiadau o Fuddiant**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant ychwanegol i'r rhai a ddatganwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiant.

**KRIC 2/2026.03.17 Eitemau ar gyfer Sicrwydd**

**KRIC 2.1/2026.03.17 Iechyd y Cyhoedd Academaidd**

Rhoddodd AD drosolwg o'r gwaith ar Iechyd Cyhoeddus Academaidd. Esboniodd AD fod y gwaith a gyflwynwyd yn seiliedig ar adolygiad blaenorol o iechyd cyhoeddus academaidd yng Nghymru a oedd wedi asesu ystyriaethau ariannol a pherfformiad Cymru wrth sicrhau grantiau ymchwil. Roedd hyn wedi ysgogi galwad i ddod â'r cymunedau iechyd cyhoeddus ac academaidd ynghyd i ddatblygu gweledigaeth gliriach ar gyfer y dyfodol. Gyda chefnogaeth y Prif Swyddog Meddygol blaenorol, roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi ymgymryd â'r rôl gynnull arweiniol.

Crynhodd AD ganfyddiadau allweddol yr adroddiad gan ddefnyddio nifer o feysydd thematig o gytundeb a ddaeth i'r amlwg o weithdai diweddar:

- Gallu cydnabyddedig Cymru i ddarparu ymchwil iechyd cyhoeddus o safon, sy'n berthnasol i bolisi, yn sgil maint cymharol fach ei system a'r cydweithio sefydledig rhwng y byd academaidd a llunwyr polisi. Fodd bynnag, nodwyd bod cyfyngiadau seilwaith yn rhwystr sylweddol.
- Roedd cyfranogwyr wedi amlygu bod angen integreiddio cryfach ar draws disgyblaethau ymchwil, yn ogystal â datblygu llwybr gyrfa iechyd cyhoeddus academaidd amlddisgyblaethol.
- Diffyg hunaniaeth ymchwil iechyd cyhoeddus genedlaethol glir, yr oedd y cyfranogwyr yn teimlo ei fod yn gwanhau'r ymdeimlad o gymuned ledled Cymru ac yn lleihau'r llais cyfunol sydd ei angen i ddylanwadu ar agendâu ymchwil.
- Pwysigrwydd cydgynhyrchu gyda'r cyhoedd yng Nghymru, a chytundeb, er bod rhwydweithiau cymunedol cryf yn bodoli, fod rhaid gwneud mwy i ymgorffori cydgynhyrchu mewn ymarfer ymchwil.
- Darnio gweithgaredd ymchwil ledled Cymru - roedd llawer o ymdrechion bach, ynysig ar y gweill, ond roedd cyfranogwyr yn teimlo y gellid cyflawni mwy o effaith trwy ganolbwyntio ar nifer llai o feysydd strategol, a arweinir gan her, fel hinsawdd ac iechyd neu niwed cymdeithasol sy'n gysylltiedig â Deallusrwydd Artiffisial (AI). Pwysleisiodd AD nad mygu arloesedd oedd y nod, ond

UNCONFIRMED

blaenoriaethu meysydd lle bo gan Gymru gryfderau presennol neu gryfderau sy'n dod i'r amlwg.

Amlinellodd AD y camau nesaf arfaethedig:

- Parhau i gyhoeddi blaenoriaethau ymchwil sy'n cyd-fynd ag amcanion strategol a fframweithiau cenedlaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Mapio cryfderau technegol mewnol a meithrin cydweithio â'r byd academaidd.
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru, Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, y byd academaidd, awdurdodau lleol a chymunedau i wreiddio cydlynu cynaliadwy.
- Gwella gwelededd Cymru o fewn maes ariannu ymchwil y DU.

Nododd AD hefyd rôl y swyddfa Ymchwil a Datblygu fel pwynt cyswllt canolog ar gyfer cydweithio cenedlaethol.

Esboniodd IB fod y Prif Swyddog Meddygol yn datblygu strategaeth ymchwil ar gyfer iechyd a gofal yng Nghymru, gan nodi bod dulliau blaenorol y llywodraeth wedi canolbwyntio gormod ar dreialon clinigol, gan esgeuluso realiti ehangach ymchwil iechyd y cyhoedd. Roedd y cyfarfod diweddar gyda'r Prif Swyddog Meddygol yn gadarnhaol, gyda diddordeb clir mewn cydweithio. Fodd bynnag, cydnabu IB y byddai heriau parhaus o ran sicrhau bod ehangder cylch gwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael ei gynrychioli'n briodol o fewn unrhyw strategaeth genedlaethol.

Diolchodd SG i AD ac EDL am eu cyfraniad at y gwaith hwn, a gwahoddodd gwestiynau gan y Pwyllgor:

- Myfyriodd CP ar y blaenoriaethau ymchwil sy’n cystadlu â’r gilydd o fewn prifysgolion a'r angen i Iechyd Cyhoeddus Cymru sicrhau bod iechyd y cyhoedd yn cael lle amlwg fel bod partneriaid academaidd yn gallu cyfiawnhau cefnogi ymchwil berthnasol. Nododd EDL fod y gwaith hwn wedi'i gyflwyno i Rwydwaith Arloesi Cymru, a bod yr is-gangellorion dros ymchwil yn cefnogi'r adroddiad hwn.
- Cododd MK gwestiwn am y biblinell hyfforddiant academaidd, gan gyfeirio at bresenoldeb hyfforddeion iechyd cyhoeddus academaidd yng Nghymru. Cadarnhaodd AD fod datblygu gyrfa wedi'i wreiddio yn y weledigaeth, a nododd waith agos gyda chyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a chynlluniau mentora ar gyfer ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa. Tynnodd AD sylw hefyd at nifer cynyddol y darpar brif ymchwilwyr, a'r ymgysylltu sydd ar ddod â Chofrestryddion Iechyd Cyhoeddus Arbenigol.
- Holodd TR am rôl sylfaenol Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn ymchwil, a myfyriodd ynghylch a ddylai'r sefydliad ymchwilio dim ond pan fydd yn cyfrannu'n uniongyrchol at nodau strategol. Eglurodd IB fod yn rhaid i Iechyd Cyhoeddus Cymru ganolbwyntio ar fylchau tystiolaeth, gan bennu meysydd blaenoriaeth drwy ei ddiddordebau ymchwil ac yna galluogi prifysgolion i gefnogi'r gwaith hwn. Pwysleisiodd fod yn rhaid i'r sefydliad osgoi cyfyngu ar ryddid academaidd, gan nodi bod y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil wedi chwarae rhan allweddol wrth lunio ymddygiad academaidd ac y dylai blaenoriaethau ymchwil Iechyd Cyhoeddus Cymru gydredeg â hyn, dylanwadu arno a’i gefnogi cyn belled ag y bo modd.

UNCONFIRMED

- Myfyriodd SA ar yr amgylchedd ariannu heriol a'r ansefydlogrwydd a greodd ar gyfer gyrfaoedd ymchwil academaidd. Disgrifiodd CP yr anhawster digynsail yn y maes ariannu presennol a'r anghydweddiad rhwng gofynion/disgwyliadau cyllidwyr ac anghenion costio economaidd prifysgolion. Tynnodd sylw at y ffaith bod ymchwil gymhwysol bellach yn hanfodol ar gyfer llwyddiant ariannu, ac ychwanegodd fod blaenoriaethau ymchwil cyhoeddedig Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi gwneud argraff sylweddol ar draws rhwydweithiau academaidd.
- Ceisiodd TF eglurder ynghylch pwrpas cyffredinol y fenter. Gan amlygu'r anghydweddiad rhwng natur gyffredinol rolau iechyd cyhoeddus a'r ffocws arbenigol sydd ei angen ar gyfer dilyniant gyrfa academaidd, awgrymodd y gallai pwysleisio datblygu'r gweithlu arwain at flaenoriaethau gwahanol na chyflwyno ymchwil sydd wedi'i halinio'n strategol. Cydnabu SG y pryderon hyn, ond nododd fod angen i Iechyd Cyhoeddus Cymru bwysleisio'r angen am ymchwil wedi'i halinio'n strategol oherwydd, heb weithredu, byddai sectorau clinigol a pholisi yn parhau i anwybyddu ymchwil iechyd y cyhoedd, ac felly roedd meithrin capasiti a datblygu'r gweithlu yn parhau i fod yn hanfodol.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** o wybod bod cynnydd yn cael ei wneud tuag at y camau gweithredu a amlinellwyd yn adroddiad Ymchwil Academaidd Iechyd y Cyhoedd yng Nghymru, a **chymeradwyodd** yr angen i Iechyd Cyhoeddus Cymru barhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid system ehangach i ddylanwadu ar gamau gweithredu ac effaith fesuradwy a'u cydlynu.

| **KRIC 2.2/2026.03.17** | **Strategaeth Digidol a Data** |
|---|---|

Rhoddodd IB yr wybodaeth ddiweddaraf am raglenni allweddol o fewn gweithrediad y Strategaeth Data a Digidol.

Nododd IB fod llawer iawn o waith newid digidol ar y gweill ar draws y sefydliad, a bod y portffolio'n cynnwys nifer o feysydd ambr a oedd yn dynodi risgiau hydrin ond sylweddol ac yr oedd angen eu goruchwylio'n barhaus. Tynnodd IB sylw at heriau fel cydweithio â Gofal Iechyd Digidol Cymru, a sicrhau bod newid busnes yn cael ei ddeall yn dda ar draws y sefydliad.

Rhoddodd JG yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd rhaglenni mawr o fewn y strategaeth:

- Rhaglen Diogelu Iechyd Digidol
  - Roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio'n uniongyrchol gyda'r cyflenwr i gyflawni'r rhaglen yn unol â'r cynllun y cytunwyd arno, ac roedd gwaith ar y gweill o fewn timau i ddatblygu a mireinio'r amserlen gyflawni.
- Rhaglen Sgrinio Canser yr Ysgyfaint
  - Roedd cynllun cyflawni sicrwydd wedi'i greu a'i anfon at y Bwrdd i'w gymeradwyo.
  - Roedd caffael y system batholeg sy'n ofynnol ar gyfer darparu gwasanaethau ar y gweill.
- Amgylcheddau Cwmwl
  - Roedd gwaith wedi mynd rhagddo ar gwblhau mudo data dadansoddol i'r amgylchedd newydd.

UNCONFIRMED

  - Roedd amgylchedd Azure yn cael ei ffurfweddu i sicrhau seilwaith addas ar gyfer defnyddio systemau yn y dyfodol.

Yna rhoddodd LN ddiweddariad ar Ddeallusrwydd Artiffisial (AI) a chynllun gwaith yr Awdurdod Dylunio Deallusrwydd Artiffisial (AIDA):

- Gwnaed cynnydd sylweddol o ran integreiddio AIDA i brosesau busnes fel arfer.
- Roedd nifer o brosiectau wedi'u cymeradwyo, ac yn eu plith:
  - Ap rhoi'r gorau i ysmygu sy'n cael ei alluogi gan AI cynhyrchiol.
  - Tri phrosiect ychwanegol sy'n agosáu at adolygiad terfynol.
  - Prosiectau gwaith sydd ar ddod ar gyfer canser yr ysgyfaint a Bron Brawf Cymru (Optimwm).
- Roedd dull cyson yn cael ei gymhwyso i brosiectau AI gan ddefnyddio safonau strwythuredig a rheoli risg.
- Roedd cofrestr fewnol o AI yn cael ei chynnal i gofnodi rheolaeth pob prosiect AI, gyda'r nod o'i gwneud yn gyhoeddus yn y pen draw er mwyn tryloywder.

Yna disgrifiodd LN y risgiau rheoli wrth ddefnyddio AI cynhyrchiol, a nododd fod y rhain yn cwmpasu dau faes gwahanol:

- AI Cynhyrchiol a Gymeradwywyd gan Fentrau (e.e., Copilot, Gemini) - roedd yr offer hyn yn lliniaru risg seiber drwy weithredu o fewn seilwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru. Roedd gweddill y risgiau yn ymwneud yn bennaf â ffactorau dynol, megis camddeall galluoedd deallusrwydd artiffisial a'i ddefnyddio'n anghywir. Roedd y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â hyn yn cynnwys:
  - Canllawiau AI cynhyrchiol newydd a oedd ar ôl ymgynghori ac a fyddai'n symud ymlaen i gael eu cymeradwyo.
  - Polisi AI yn mynd i AIDA ym mis Ebrill.
  - Proses drefniadol glir ar gyfer defnyddio a llywodraethu AI.
  - Sefydlu mecanweithiau ar gyfer adrodd ar ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig ag AI drwy Datix.
- 'AI Cysgodol' - offer AI allanol a ddefnyddir gan staff y tu hwnt i reolaeth sefydliadol. Nododd LN fod papur ar AI cysgodol i fod i gael ei gyhoeddi ym mis Ebrill, gyda'r nod o gydbwyso arloesedd â rheoli risg, wedi'i gefnogi gan hyfforddiant a chyfathrebu clir.

Diolchodd SG i JG ac LN am y diweddariad a gwahoddodd sylwadau.

- Awgrymodd IB ychwanegu dau welliant at adroddiadau yn y dyfodol – atodiad yn crynhoi'r holl ddigwyddiadau a risgiau data, a chrynodeb un dudalen o risgiau a chamau lliniaru ar gyfer pob prosiect AI sydd newydd ei gymeradwyo er mwyn gwelededd a goruchwyliaeth gliriach. Croesawyd hyn gan y Pwyllgor.
- Tynnodd IB sylw at y gwaith a wnaed rhyngddo ef ac SA i ystyried y risgiau iechyd cyhoeddus ehangach sy'n cael eu creu gan AI. Mynegodd bryderon ynghylch sut y gallai buddiannau masnachol wrthdaro â nodau iechyd y cyhoedd, a phwysleisiodd fod angen mynd o flaen risgiau sy'n dod i'r amlwg. Awgrymodd SA y byddai fframwaith asesu strwythuredig, fel Asesiad cyflym o'r Effaith ar Iechyd, yn helpu i sicrhau bod risgiau a chyfleoedd yn cael eu hystyried ar y cyd.
- Nododd MK y dangoswyd bod AI yn darparu enillion effeithlonrwydd sylweddol, ac argymhellodd gymhwyso lens effaith busnes ochr yn ochr â'r asesiad risg

UNCONFIRMED

traddodiadol. Cyfeiriodd at yr enghraifft o ddefnyddio deallusrwydd artiffisial i brosesu llawer iawn o wybodaeth yn ymarfer Pegasus.
- Cododd TR bosibilrwydd System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) bwrpasol ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru, a nododd y gallai haenu data yn ddaearyddol gefnogi partneriaid sy'n gweithio ar lawr gwlad yn fawr. Cefnogodd y Pwyllgor hyn a thynnodd sylw at y manteision sylweddol ar gyfer cadw golwg ar glefydau, mapio anghydraddoldebau iechyd, a chynllunio gwasanaethau.
- Nododd IB fod GIS yn cael ei hystyried yn gam yn y dyfodol ar daith ddigidol y sefydliad, ond mai'r flaenoriaeth uniongyrchol oedd cydgrynhoi a pharatoi data drwy'r Platfform Dadansoddi Data Cenedlaethol (NDAP) fel y gellid defnyddio offer GIS yn effeithiol.
- Cadarnhaodd LN fod Google Cloud yn cynnig offer perthnasol wedi'u hymgorffori (e.e. integreiddiadau Google Maps) a bod Python/R yn darparu capasiti GIS dadansoddol pellach, ond rhybuddiodd fod hyn yn dibynnu ar ansawdd ac argaeledd data.

Gofynnodd SG i LB drefnu trafodaeth ar AIDA mewn cyfarfod Datblygu'r Bwrdd yn y dyfodol.
**Cam Gweithredu: LB**

Cytunodd IB i ystyried sut y gellid integreiddio metrigau sy'n gysylltiedig ag AI i'r fframwaith adrodd Perfformiad a Sicrwydd.
**Cam Gweithredu: IB**

Gofynnodd SG i IB ddod ag eitem ar AI ac iechyd y cyhoedd yn ôl i gyfarfod y Pwyllgor yn y dyfodol.
**Cam Gweithredu: IB/SA**

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** o ddeall bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyflawni ei Strategaeth Ddigidol a Data drwy'r Map Llwybr y cytunwyd arno a bod ganddo lywodraethu cadarn
ar waith ar gyfer rheoli gwaith digidol a data.

| KRIC 2.3/2026.03.17 | Y Fframwaith Canlyniadau |
|---|---|

Rhoddodd IB drosolwg o'r gwaith i wreiddio system gadarn o fesur canlyniadau ar draws y sefydliad. Nododd IB, er bod y canlyniadau lefel uchel a'r dangosyddion cysylltiedig eisoes ar waith, fod angen datblygu dau faes pwysig ymhellach o hyd:
- Modelu Effaith – i sicrhau y gall Iechyd Cyhoeddus Cymru flaenoriaethu'r camau gweithredu sydd fwyaf tebygol o helpu i gau'r bylchau mewn canlyniadau.
- Gwerthuso – i sicrhau y gall y sefydliad ddangos tystiolaeth o'i effaith drwy werthuso cryf, sy'n gadarn ei fethodoleg.

Pwysleisiodd IB mai'r nod oedd deall pa gamau gweithredu oedd bwysicaf, a sut y gallai'r sefydliad ddangos bod ei waith wedi dylanwadu ar ganlyniadau iechyd y boblogaeth.

Nododd LN gynnydd ar draws tair llinyn craidd y system fesur:

UNCONFIRMED

- Dangosyddion - roedd gwaith ar y gweill i fireinio dangosyddion canlyniadau poblogaeth, a byddai dadansoddiad ychwanegol ar Ddisgwyliad Oes Iach yn cael ei ystyried gan y Tîm Gweithredol Busnes. Nododd LN bwysigrwydd cryfhau dangosyddion sy'n ymwneud â'r blynyddoedd cynnar a phenderfynyddion ehangach iechyd.
- Modelu Effaith – nod hyn oedd deall dylanwad posibl gweithredoedd Iechyd Cyhoeddus Cymru ar ganlyniadau. Helpodd gweithdy diweddar i archwilio sut i flaenoriaethu'r prif gamau gweithredu gyda'r effaith debygol fwyaf, a byddai'r tîm yn cynnal trafodaeth gyda'r holl arweinwyr blaenoriaeth strategol i nodi'r ymgeiswyr cryfaf. Cydnabu LN mai'r rhan anoddaf o fodelu effaith oedd cael eglurder ynghylch y camau gweithredu eu hunain, sy'n hanfodol ar gyfer modelu cadarn.
- Cynllun Tymor Canolig Integredig - roedd gwaith ar y gweill gyda chydweithwyr strategaeth a chynllunio i ymgorffori canllawiau cliriach ar ganlyniadau, gwerthuso a modelu o fewn proses y Cynllun Tymor Canolig Integredig, ac mae adolygiad ôl-weithredol gyda thîm y Cynllun hwn wedi'i gynllunio i gryfhau fersiynau yn y dyfodol.

Pwysleisiodd AD fod y rhaglen werthuso yn hanfodol ar gyfer pennu a oedd gweithredoedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyfrannu'n ystyrlon at welliannau mewn canlyniadau, a nododd y ffocws presennol ar raglenni arwyddocaol yn strategol lle'r oedd cadwyn achosol gredadwy yn bodoli rhwng gweithgaredd y sefydliad a chanlyniadau iechyd y boblogaeth. Roedd y gwerthusiadau hyn yn cynnwys technegau casglu achosol i benderfynu beth fyddai wedi digwydd heb ymyrraeth.

Tynnodd AD sylw at y ffaith bod y dull hwn yn gwella casglu data ac yn cryfhau'r gallu i ddangos tystiolaeth o effaith, a'i fod wedi arwain at fwy o sgyrsiau am gynnwys gwerthuso ar ddechrau dylunio rhaglenni.

Diolchodd SG i IB, LN ac AD am y diweddariad.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch gweithredu a defnyddio system fesur Iechyd Cyhoeddus Cymru, a bod gwaith ar y gweill i ymgorffori'r system fesur yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig ac adrodd ar berfformiad.

| **KRIC 2.4/2026.03.17** | **Diweddariad ar Flaenoriaeth Strategol 1: Dylanwadu ar benderfynyddion ehangach iechyd** |
|---|---|

Cyflwynodd SA y diweddariad ar y cynnydd tuag at Flaenoriaeth Strategol Un ers yr iteriad blaenorol yng nghyfarfod mis Mehefin 2025. Nododd SA fod strwythurau Llywodraethu wedi'u cryfhau trwy grŵp traws- gyfarwyddiaeth rheolaidd, a ddefnyddir bellach i fonitro cynnydd, uwchgyfeirio materion, a sganio'r gorwel am risgiau sy'n dod i'r amlwg (gan gynnwys ansefydlogrwydd geo-wleidyddol ac economaidd). Bu'r tîm hefyd yn adolygu'r map llwybr yn ddiweddar yng nghyd-destun cynllunio sefydliadol i sicrhau bod adnoddau wedi'u halinio y tu ôl i flaenoriaethau cyfunol.

UNCONFIRMED

Darparodd CH amlinelliad o'r fframwaith ar gyfer dylanwadu ar benderfynyddion ehangach iechyd. Nod y fframwaith oedd cryfhau "blociau adeiladu iechyd"—lleoedd iach, blynyddoedd cynnar, addysg a gwaith—trwy amodau gwell ar gyfer llunio polisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gweithredu cryfach a gwell gallu. Nododd CH y gwaith a wnaed i neilltuo arweinwyr clir ar gyfer pob ffrwd waith, ac i sicrhau cyd-fynd â mentrau Tegwch Iechyd Cymru a Chenedl yr Amgylchedd.

Darparodd CH enghreifftiau o raglenni gwaith mawr:

- Fframwaith Gweithredu ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar
  - Yn canolbwyntio ar dystiolaeth ac ymgysylltu'n uniongyrchol â theuluoedd i nodi beth mae teuluoedd yn ei gredu sy'n gyfystyr â "dechrau da mewn bywyd", ac yn gosod disgwyliadau ar gyfer gweithredu lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.
- Asesiad o Anghenion Cydweithio: Canlyniadau Gwell ar gyfer Tlodi Plant
  - Cynhaliwyd adolygiad llenyddiaeth ac ymchwil sylfaenol (arolwg a chyfweliadau) i ddeall rhwystrau rhag cydweithio. Dangosodd y canfyddiadau ymrwymiad cryf i gydweithio, ond heriau sylweddol o ran seilwaith, mynediad at ddata, a chyfranogiad trwy brofiad byw. Roedd y canlyniadau wedi'u rhyddhau'n ddiweddar, a byddent yn cael eu defnyddio i gefnogi partneriaid i gryfhau cydweithio.

Amlinellodd CH hefyd raglen a ariannwyd gan y Sefydliad Iechyd a sefydlwyd i gefnogi Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i fabwysiadu offer meddwl systemau. Datgelodd gwerthusiad cynnar heriau mawr yn ymarfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, ac fe ysgogodd ailgynllunio rhaglen a sefydlu grŵp cryfhau cenedlaethol ar gyfer y byrddau hyn (dan gydarweiniad Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, a Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru).

Tynnodd SA sylw at feysydd gwaith allweddol eraill o dan y flaenoriaeth:

- Byddai dyletswyddau statudol yn dod i rym ym mis Ebrill 2027, a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd ar gyfer penderfyniadau strategol. Y ffocws presennol oedd Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd effaith uchel fel sgrinio am ganser yr ysgyfaint a newid hinsawdd.
- Gwaith ar yr economi llesiant, wedi'i ategu gan gytundeb ffurfiol rhwng Llywodraeth Cymru a Sefydliad Iechyd y Byd, gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru yn bartner cyflawni. Roedd hyn yn cynnwys creu Tîm Llesiant, Economeg a Gwerth newydd i gefnogi'r holl flaenoriaethau strategol gyda modelu a dadansoddi economaidd.
- Cyfraniadau at bolisi cenedlaethol ynghylch tlodi tanwydd, a thai ac iechyd.

Nododd CN gynnydd o ran adeiladu swyddogaeth wyliadwriaeth ar gyfer penderfynyddion ehangach iechyd, a oedd yn cynnwys integreiddio dangosyddion penderfynyddion ehangach i'r system fesur, gwerthusiadau o raglenni cenedlaethol, a chynlluniau ar gyfer gwaith modelu polisi mwy helaeth gyda phartneriaid academaidd.

Diolchodd SG i SA a CH am y cyflwyniad, a nododd y cysylltiadau cryf rhwng Blaenoriaeth Strategol 1 a'r drafodaeth gynharach ar iechyd cyhoeddus academaidd. Cadarnhaodd CH gydweithio agos ag AD a'r timau Ymchwil a Gwerthuso.

UNCONFIRMED

Gofynnodd MK a oedd Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd yn berthnasol i Weinidogion Cymru neu Lywodraeth Cymru yn ehangach, ac awgrymodd y gallai rhaglenni mawr fel datgarboneiddio elwa ar ystyriaeth gynnar o ran yr asesiadau hyn. Eglurodd SA fod yr Asesiadau'n berthnasol i gyrff cyhoeddus sy'n gwneud penderfyniadau strategol, ond nad oedd "strategol" wedi'i ddiffinio'n fanwl, a chytunodd i gadarnhau hyn y tu allan i'r cyfarfod.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch y cynnydd hyd yma a chynlluniau ar gyfer y dyfodol ar Ddylanwadu ar Benderfynyddion Ehangach Iechyd.

| | |
|---|---|
| **KRIC 2.5/2026.03.17** | **Rheoli Risg** |
| **KRIC 2.5.1/2026.03.17** | **Cofrestr Risgiau Strategol** |

Rhoddodd DG drosolwg o Risgiau Strategol 1, 4 a 5, a oedd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor. Nododd DG fod y papur yn nodi'r sefyllfa ar 1 Rhagfyr 2025, ac y byddai fersiwn wedi'i diweddaru yn dangos y sefyllfa ar 1 Chwefror 2026 yn cael ei chyflwyno i gyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth.

Tynnodd DG sylw at y ffaith bod yr holl risgiau wedi'u diweddaru gan arweinwyr risg, a'u bod yn cael eu rheoli ar hyn o bryd o fewn trothwy goddefiant y parodrwydd i dderbyn risg.

Darparwyd diweddariadau i'r Risgiau Strategol o dan gylch gwaith y Pwyllgor:

- **Risg Strategol Un** (methu cyflawni ein rôl i ddylanwadu ar newid system i atal, lleihau anghydraddoldebau iechyd a mynd i'r afael â phenderfynyddion iechyd)
- **Risg Strategol Pedwar** (methu lliniaru effeithiau iechyd cyhoeddus newid hinsawdd ar boblogaeth Cymru yn effeithiol) – ychwanegodd SA fod lefel y risg wedi'i lleihau oherwydd trefniadau llywodraethu newydd sydd ar waith:
    - Goruchwyliodd Bwrdd Rhaglen Newid Hinsawdd newydd yr agenda eang.
    - Roedd is-grwpiau a oedd yn cyd-fynd â map llwybr newid hinsawdd bellach yn weithredol, a oedd yn cynnwys is-grŵp pwrpasol a oedd yn ymdrin â gwyliadwriaeth ac ymchwil.
    - Mae Giri Shankar bellach yn cadeirio Pwyllgor Hinsawdd ac Iechyd Cymdeithas Ryngwladol y Sefydliadau Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol.
    - Roedd Rebecca Hill yn rhan o gydlynu'r pedair gwlad.
- **Risg Strategol Pump** (manteisio'n llawn ar ddigidol a data i wella iechyd y cyhoedd yng Nghymru) – nododd IB fod cynnig i'w ystyried yn y Tîm Gweithredol Busnes i ailfframio Risg Strategol 5, ac y gallai'r risg ddiwygiedig ganolbwyntio'n ehangach ar reoli newid ar draws y sefydliad, yn hytrach na dim ond cyflenwi digidol a data. Gall y cynnig ddod gerbron y Bwrdd i'w drafod yn dibynnu ar gyfeiriad y Tîm Gweithredol Busnes.

Diolchodd SG i DG am y diweddariad, a chymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch rheoli Risg Strategol o fewn y Sefydliad.

| | |
|---|---|
| **KRIC 2.5.2/2026.03.17** | **Y Gofrestr Risg Gorfforaethol** |

UNCONFIRMED

Rhoddodd DG ddiweddariad ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol, gan nodi bod y Tîm Arwain wedi ystyried y diweddariad yn ei gyfarfod ym mis Chwefror. Byddai cofrestr wedi'i diweddaru yn cael ei chyflwyno yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth.

Nododd DG nad oedd unrhyw risgiau corfforaethol wedi'u graddio'n goch ar hyn o bryd.

- Eglurodd SA fod y risg hinsawdd ar lefel gorfforaethol yn ymwneud yn benodol â gallu'r sefydliad i gyflawni ei rwymedigaethau carbon sero net, a bod hyn yn wahanol i'r risg strategol gysylltiedig. Nododd SA hefyd fod y sgôr risg yn parhau'n uchel oherwydd yr her weithredol ac ariannol dan sylw, a systemau mesur sy'n esblygu'n gyflym gan achosi mesuriadau anghyson dros amser. Roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynnal adolygiad i nodi cyfleoedd datgarboneiddio tymor byr, gyda ffocws ar gaffael, a oedd yn cynrychioli'r gyfran fwyaf o ôl troed carbon y sefydliad.
- Ychwanegodd MK fod cyfarwyddiaeth y Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio yn mabwysiadu dull mwy systematig a strategol o gaffael fel rhan o'r risg datgarboneiddio, ac y byddai'r blaengynllun caffael (i'w rannu gyda'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol) yn cael ei ddefnyddio i nodi cyfleoedd lliniaru datgarboneiddio ychwanegol.
- Tynnodd IB sylw at y ffaith bod Audit Plus, y system a ddefnyddir ar hyn o bryd i gael at ddata gofal sylfaenol, wedi'i hestyn am flwyddyn arall. Nododd IB y byddai hyn yn lliniaru'r risg o golli mynediad yn y tymor byr, ond bod gwaith ar y gweill i fudo data perthnasol i'r Adnodd Data Cenedlaethol (NDR). Roedd y porthiant cyntaf o'r fath i fod i symud i'r NDR erbyn diwedd mis Ebrill.
- Tynnodd IB sylw at ostyngiad yn y sgôr risg o amgylch cyfraddau ymateb i arolygon oherwydd bod cyfraddau ymateb y Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi gwella ac wedi cyrraedd lefelau mwy derbyniol, ond bod heriau'n parhau ynghylch syrffed ar arolygon, amheuaeth y cyhoedd, a'r llwythi gwaith cynyddol i gyflawni'r niferoedd ymateb gofynnol.

Diolchodd SG i DG am y diweddariad a chymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** bod risgiau corfforaethol yn destun craffu priodol.

| | |
|---|---|
| **KRIC 3/2026.03.17** | **Eitemau i'w Cymeradwyo** |
| **KRIC 3.1/2026.03.17** | **Cofnodion, Log Camau Gweithredu a Materion yn Codi o'r cyfarfod (09 Rhagfyr 2025)** |

**Cymeradwyodd** y Pwyllgor gofnodion cyfarfod 9 Rhagfyr fel cofnod cywir.

Ystyriodd y Pwyllgor y camau gweithredu sy'n weddill ar y log camau gweithredu, gan nodi:

- **Cam Gweithredu 2025/06** (amserlen ar gyfer system TG newydd) – dywedodd IB y byddai achos busnes yn cael ei gyflwyno i'r Tîm Gweithredol Busnes, a oedd yn canolbwyntio ar waith uwchraddio labordai sydd ei angen ym Mhrifysgol Caerdydd (sef partner labordy sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru). Yn dilyn ail-lwyfannu systemau sgrinio newyddenedigol, roedd hyder y gellid cyflwyno'r elfennau digidol ar gyfer cyflwyno sgrinio tyrosinemia. Roedd y gweithrediad yn ddibynnol ar benderfyniadau ariannu Llywodraeth Cymru ar achos y labordy.

UNCONFIRMED

- Ychwanegodd MK, gan fod Tyrosinemia yn brin, ei fod yn gwneud cost-effeithiolrwydd cyflwyno sgrinio yn heriol.

- **Cam Gweithredu 2024/6** (datblygu ap y GIG) – dywedodd IB fod trafodaethau wedi digwydd gyda Gofal Iechyd Digidol Cymru (IGDC), a bod gwaith yn cael ei wneud i ddatblygu cynllun gwaith ar y cyd rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru ac IGDC. Byddai Iechyd Cyhoeddus Cymru yn sefydlu grŵp cydlynu mewnol i symleiddio ymgysylltiad ag IGDC, ac roedd sgyrsiau wedi'u cynnal â Llywodraeth Cymru ar faterion y gallent fod eisiau eu mandadu'n genedlaethol o fewn yr ap.
    - Gofynnodd MK a fyddai gwelliannau i ddefnydd apiau a data ethnigrwydd yn cryfhau cadernid data iechyd y boblogaeth. Nododd IB y byddai'r manteision yn dibynnu ar weithredu, megis gyda defnyddio dilysu defnyddwyr a chofnodion meddygon teulu, ond y byddai mwy o ddefnydd o apiau yn cryfhau cyflawnrwydd data.

**Cymeradwyodd** y Pwyllgor y newidiadau i'r log camau gweithredu.

| KRIC 4/2026.03.17 | Argymhelliad i'r Bwrdd |
|---|---|
| **KRIC 4.1/2026.03.17** | **Adolygiad Pwyllgor 2025/26 a Blaengynllun 2026/27** |

Cyflwynodd LB adroddiad blynyddol y Pwyllgor, a oedd yn crynhoi gwaith y Pwyllgor dros y flwyddyn a'r drafodaeth yng ngweithdy Effeithiolrwydd y Pwyllgor. Byddai'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Bwrdd ym mis Mai i sicrhau bod y Pwyllgor wedi cyflawni ei Gylch Gorchwyl. Aeth LB ymlaen i dynnu sylw at y ffaith nad oedd unrhyw newidiadau arfaethedig i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor, a bod y Blaengynllun ar gyfer 2026/27 wedi'i ddrafftio gyda'r cylch adrodd disgwyliedig, er bod pynciau archwiliad dwfn eto i'w cwblhau.

Nododd SG drafodaeth flaenorol y Pwyllgor ynghylch cyd-fynd â chynllun gwaith y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella (QSIC), ac awgrymodd y dylid cydlynu pynciau archwiliad dwfn fel eu bod naill ai'n cael eu cyflwyno ar y cyd neu wedi'u hamseru fel bod y ddau Bwyllgor yn ymdrin â phynciau cysylltiedig ar yr un pryd. Cytunodd IB a chynigiodd weithio gyda Phrif Weithredwyr ar y cyd ar gyfer Pwyllgor QSIC i ddatblygu dull cydlynol a fyddai'n sicrhau'r amseroedd gorau i bapurau fynd i'r pwyllgor mwyaf addas.
**Cam Gweithredu: IB**

Cytunodd y Pwyllgor y dylid addasu amseriad Blaenoriaeth Strategol un ar Flaengynllun 2026/27 ymhellach yn y cylch adrodd er mwyn sicrhau digon o amser ar gyfer adrodd ystyrlon.

Gwnaeth y Pwyllgor:

- **Gymeradwyo** Adroddiad Blynyddol drafft y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 yn crynhoi'r meysydd allweddol o weithgarwch busnes a wnaed ar gyfer y Pwyllgor hwn.
- **Nodi** y byddai'r adroddiad drafft yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu cyfarfod y Pwyllgor ar 17 Mawrth 2026 ac y byddai Cadeirydd y Pwyllgor yn cytuno ar y fersiwn derfynol cyn ei gyflwyno i'r Bwrdd.

UNCONFIRMED

- **Argymell** yr adroddiad (yn amodol ar y gwelliannau y cytunwyd arnynt gyda'r Cadeirydd) i'r Bwrdd i roi sicrwydd bod y Pwyllgor yn addas at y diben ac yn gweithredu'n effeithiol wrth gyflawni ei gylch gorchwyl.
- **Argymell** cynllun gwaith y Pwyllgor i'r Bwrdd i roi sicrwydd bod gan y Pwyllgor y cynllun priodol ar waith ar gyfer 2026/27 i gyflawni ei gylch gorchwyl.
- **Nodi** y byddai Grŵp Cadeiryddion y Trawsbwyllgor yn adolygu cynnydd o ran gweithredu'r camau gweithredu a'r camau nesaf yn ystod 2026/27.
- **Nodi** nad oedd unrhyw newidiadau arfaethedig i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Safonau.

| | |
|---|---|
| **KRIC 5 /2026.03.17** | **Eitemau i'w Nodi** |
| **KRIC 5.1/2026.03.17** | **Diweddariad ar y Traciwr Argymhellion Archwilio** |

**Nododd** y Pwyllgor y Traciwr Argymhellion Archwilio er gwybodaeth.

| | |
|---|---|
| **KRIC 7/2026.03.17** | **Gweinyddiaeth i gloi** |

Unrhyw fater arall: Dim.

Gwahoddwyd aelodau'r Pwyllgor i roi eu hadborth ar y cyfarfod drwy e-bost i LB, gan gynnwys unrhyw feysydd a weithiodd yn dda, ac unrhyw feysydd i'w gwella.

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: **16 Mehefin 2026.**

Daeth y cyfarfod i ben am 15:36

UNCONFIRMED